



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 18 Gorffennaf 2023

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Kirsty Payne (KP)
John Graystone (JG)
Dr Debbie Nash (DN)
Katie Phillips (KPH)
Yusuf Ibrahim (YI)
Paul Marshall (PM)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

Gwahoddedig: Gillian Gillett (GG), Archwilio Cymru

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y sesiwn trwy groesawu pawb i gyfarfod y Bwrdd heddiw. Cafwyd ymddiheuriadau gan Martin Price. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w nodi.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd, a nododd bod yr holl gamau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu y byddant yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn yr agenda. Roedd camau gweithredu 209 a 221 yn parhau.

2. Cynllun Archwilio Allanol

Croesawodd SD Gillian Gillett (GG) o Archwilio Cymru a gyflwynodd y Cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2023.

Mae'r cynllun archwilio hwn yn nodi'r cynllun gwaith ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau archwilio gydol y flwyddyn. Mae tudalen 5 yn rhoi manylion cyfrifoldebau mewn perthynas â datganiadau ariannol ac yn amlinellu'r cysyniad o berthnasedd. Nodwyd un risg sylweddol ar Dudalen 8 mewn perthynas â diystyru rheolaethau gan reolwyr. Nodwyd risg arall ar dudalen 9 ynghylch y safonau cyfrifyddu newydd.

Cyfeiriodd GG at y ffi archwilio o £4,127 a restrwyd ar Dudalen 11. Mae hyn yn dangos cynnydd yng nghyfradd y ffi oherwydd y newid bach yn y ffocws archwilio. Mae Atodiad 1 yn egluro hyn yn fanylach.

Mewn ymateb i ymholiad gan MJ, cadarnhaodd GG fod y ffocws risg yn cynnwys risgiau ariannol. Dywedodd GG fod mwy o bwyslais ar reolaethau dan ISO 435.

Diolchodd SD i GG am greu'r cynllun cynhwysfawr hwn a chytunodd y bwrdd i gyfarwyddo Archwilio Cymru i gynnal archwiliad o ddatganiadau ariannol 2022/23 yn unol â'r cynllun.

3. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Darparodd JG adroddiad cryno ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd fis diwethaf. Trafodwyd cyfleuster yr Uned ac efallai y byddwn yn ystyried symud i swyddfa wedi'i gwasanaethu yn y dyfodol.

Nid oedd unrhyw absenoldebau staff i'w hadrodd. Byddai Emma Chivers yn parhau gyda'i rôl ar sail ymgynghorol chafodd Meleri Light ei phenodi'n Bennaeth y Gymraeg. Roedd llesiant staff yn dda a bydd camau'n cael eu cymryd i adnewyddu'r achrediad Buddsoddwyr mewn Llesiant ochr yn ochr â gwneud cais am achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Bu trafodaeth ar wrth-hiliaeth a oedd yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor bellach.

Roedd KP wedi darparu trosolwg o'r gyllideb a'r gwariant ar gyfer Ch1 ynghyd ag esboniadau ar gyfer amrywiadau. Bydd mater dyfarniadau cyflog yn cael ei gadarnhau dan Eitem 5 yr Agenda heddiw. Roedd aelodau'r Bwrdd yn awyddus i gwrdd â staff felly bydd hyn yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod wyneb yn wyneb y Bwrdd ym mis Medi.

Diolchodd SD i JG am ei adroddiad ac **roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn cofnodion ac argymhellion y pwyllgor.**

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd fis diwethaf. Cytunwyd mai dim ond anrhegion sy'n werth £50 neu fwy fydd angen eu hychwanegu at y gofrestr o hyn ymlaen.

Cafodd dull newydd o adrodd ar y gofrestr risg drwy eithriad ei dreialu, fel yr argymhellwyd gan yr archwilwyr mewnol. Bydd cofrestr fanwl yn dal i gael ei rhannu cyn pob cyfarfod ond dylai'r dull hwn ryddhau rhywfaint o amser gwerthfawr i drafod materion mwy strategol. Cychwynnwyd trafodaeth ddefnyddiol gan PM am risgiau crai. Tynnodd MJ sylw at wall teipio ym Mharagraff 3 y cofnodion - dylai gyfeirio at ISO 21001.

Awgrymwyd rhai enwau i'w cynnwys ar banel yr adolygiad wedi'i deilwra. Nid oedd rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r adolygiad ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd archwiliad dwfn llawn gwybodaeth a defnyddiol iawn ar y ffrwd waith adnoddau gan Dr Chris Lewis a amlinellodd gynnydd trawiadol iawn gyda'r gwaith hwn.

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad. **Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn cofnodion ac argymhellion y pwyllgor.**

Diolchodd SD i gadeiryddion y ddau is-bwyllgor am wneud gwaith mor fuddiol. Tynnodd SD sylw at y ffaith mai mater i'r pwyllgorau fyddai penderfynu cyn bo hir a oeddent yn dymuno newid cadeiryddion bob dwy flynedd fel yr awgrymwyd.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dywedodd TE wrth y Bwrdd fod cytundeb wedi'i wneud rhwng yr undebau a Llywodraeth Cymru am ddyfarniad cyflog untro o £1,500 ar gyfer holl aelodau'r staff a fyddai'n daladwy ddiwedd mis Gorffennaf. Byddai'r Academi'n adlewyrchu'r dyfarniad cyflog hwn a chadarnhaodd TE y byddai digon o arian o fewn y grant presennol i dalu am hyn. Mae trafodaethau ar ddyfarniad cyflog 2023/2024 ar waith ar hyn o bryd.

Yna, darparodd TE adroddiad am gynnydd pob ffrwd waith gan dynnu sylw at gynnydd a chyflawniadau diweddar:

Paragraff 1.1 Sicrwydd Ansawdd – Mae darpariaeth dysgu proffesiynol DARPL wedi'i chymeradwyo bellach. Mae aelod o staff yn mynychu'r hyfforddiant hwn ar hyn o bryd a ddylai roi dealltwriaeth ddefnyddiol o'r ddarpariaeth hon. Gan fod y broses sicrwydd ansawdd wedi bod ar waith ers 5 mlynedd, mae'n bryd bellach i'r darpariaethau cynnar ailymgeisio am gymeradwyaeth eto. Mae TE yn dal i drafod gyda Llywodraeth Cymru ynghylch dyrannu cyllid ar gyfer darpariaeth a gymeradwywyd yn unig.

Paragraff 1.2 Arloesi – Mae'r sefydliad yn dal i gefnogi prosiectau newydd, gan gynnwys rhaglen Estyn i annog arweinwyr uchelgeisiol du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae hyn yn targedu arweinwyr canol ac mae'n cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Adroddodd TE ar y cynnydd mewn ceisiadau am gyllid arloesi a fydd yn gofyn am hyblygrwydd a chreadigrwydd wrth benderfynu sut i ddyrannu a blaenoriaethu ceisiadau.

Paragraff 1.3 Arweinyddiaeth System - Yn ddiweddar, fe wnaeth pob Cydymaith gymryd rhan mewn cyfarfod digidol lle cawsant hyfforddiant ar faterion trawsryweddol a chyflwyniad ar bapur gwyn Cymraeg mewn Addysg hefyd. Aeth Garfanau 3, 4 a 5 i ddigwyddiad deuddydd yng Nghaerdydd a oedd yn cynnwys symposiwm rhyngwladol. Bydd sgysiau proffesiynol yn cael eu cynnal gyda Charfan 5 i gofnodi eu profiadau o'u blwyddyn gyntaf.

Mae disgwyl i Garfanau 3 a 4 orffen eu tymhorau Cydymdaith a ariennir ddiwedd yr wythnos hon ac yna byddant yn cael cyfle i ymuno â'r Ffederasiwn Cydymaith. Mae Janet Hayward wedi'i phenodi'n Gadeirydd y Ffederasiwn a fydd yn cyfarfod wyneb

yn wyneb am y tro cyntaf ym mis Hydref. Mae'r grŵp wedi derbyn cylch gorchwyl awgrymedig ond bydd yn cael cyfle i'w ddiwygio a phenderfynu pa mor aml i gynnal cyfarfodydd. Nid ydynt wedi cael cyllideb benodol ond cadarnhaodd TE y byddai cymorth ar gael trwy grantiau a chynhadledd flynyddol i Gymdeithion.

Mae'r prosiect peilot Hyrwyddwyr Cyrhaeddiad ar fin dod i ben a bydd yn cael ei werthuso i ystyried y camau nesaf. Amlinellodd TE rai opsiynau i Lywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer datblygu'r prosiect hwn ond bydd angen ystyried materion ariannu.

Cytunodd YI y gallai materion ariannu fod yn rhwystredig ac awgrymwyd symud i fodel dwy flynedd o gyllidebau i ganiatáu mwy o hyblygrwydd. Bydd TE yn parhau i godi hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd JG am fanylion pellach am gylch gorchwyl y Ffederasiwn. Bydd TE yn anfon copi o'r cylch gorchwyl a awgrymir.

Para 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – Cynhaliwyd digwyddiad ar-lein tair gwlad llwyddiannus iawn yn ddiweddar gyda'r Athro Alma Harris yn siaradwr. Cynhaliwyd y gynhadledd arweinyddiaeth genedlaethol gyntaf ar amrywiaeth a gwrth-hiliaeth gan DARPL ar y cyd â'r Academi Arweinyddiaeth, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r consortia rhanbarthol. Roedd TE wedi gwneud cyhoeddiad ynglŷn â'r grŵp llywio gwrth-hiliol a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf yr wythnos diwethaf. Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn awr o ran datblygu agenda gwrth-hiliaeth yr Academi Arweinyddiaeth a sut mae'n dylanwadu ar eraill.

Cynhaliwyd y gynhadledd wyneb yn wyneb gyntaf ers 2019 ddiwedd mis Mehefin yn ICC, Casnewydd. Denwyd tyrfa dda. Soniodd TE am daro cydbwysedd rhwng digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein gan fod y ddau opsiwn yn cynnwys manteision a chyfyngiadau gwahanol.

Paragraff 2.1 Adnoddau – Cynhaliwyd archwiliad dwfn ar adnoddau yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r adnodd Cymraeg mewn Addysg yn barod i gael ei dreialu erbyn hyn a dylai gael ei gyhoeddi ar y wefan cyn bo hir. Bydd Hwb yn cael ei ailgynllunio dros yr haf a'r gobaith yw y bydd eicon yr Academi Arweinyddiaeth yn cael ei osod ar y dudalen flaen.

Paragraff 2.2 Cïpolwg – Mae comisiwn Carfan 3 ar ADY wedi'i gwblhau bellach ac yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd. Cytunwyd bellach y bydd yn cael ei gyhoeddi gan ei bod hi'n werth rhannu'r ddogfen. Mae angen gwneud rhywfaint o waith eto ar gomisiwn Carfan 4 ar ysgolion bro cyn ei gyhoeddi. Bydd y ddau adroddiad yn cael eu rhannu gyda'r Gweinidog ynghyd â'r cynlluniau gweithredu. Mewn ymateb i ymholiad gan SD, cadarnhaodd TE nad oedd bwriad i gynhyrchu copïau print er y gallai'r rhain fod yn ategion defnyddiol i rai digwyddiadau.

Lansiwyd comisiwn Carfan 5 ar y Cwricwlwm i Gymru yng nghynhadledd CiG ac mae'r grŵp Llesiant wedi bod yn cael cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru hefyd ar sut i fwrw ymlaen â'u comisiwn. Roedd TE yn falch o nodi bod y garfan hon wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth ddechrau casglu tystiolaeth yn gynnar ar gyfer eu

comisiynau. Gofynnwyd i Dr Chris Lewis a Nia Miles gynhyrchu canllawiau ar broses y comisiwn.

2.3 Llesiant – Mae'r gwaith hwn yn dal i ennill ei blwyf gyda chyfarfodydd rheolaidd o'r grŵp ymgynghori a'r gweithgor. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n edrych ar asesiadau effaith ar lwythi gwaith a bydd arolwg o arweinwyr yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried amodau a thelerau'r gweithlu hefyd.

2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol – Mae gwaith NIESR yn mynd rhagddo er ei bod hi'n anodd dod o hyd i benaethiaid a chyn-benaethiaid i gymryd rhan yn y gwaith hwn. Mae'r ymchwilyr yn mynychu cyfarfod y grŵp gweinidogol ym mis Medi i gwblhau eu gwaith casglu data a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gynhyrchu ym mis Hydref. Soniodd TE am yr anawsterau o ran nodi arweinwyr ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg gan fod llawer llai o ymgeiswyr yn y sector hwn.

3.1 Llywodraethu Effeithiol – Nid oes unrhyw wybodaeth bellach am yr adolygiad wedi'i deilwra er bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi i roi diweddariad.

Awgrymodd DN y dylai Addysg Bellach Uwch gael ei ystyried fel un o'r sefydliadau meincnodi posibl ar gyfer yr adolygiad.

3.2 Swyddogaeth Weithredol – Mae'n gyfnod gwerthuso ar hyn o bryd gyda newidiadau i'r cynllun corfforaethol i'w rhannu ym mis Medi. Mae diwrnodau dysgu proffesiynol yn cael eu trefnu ar gyfer staff – roedd un diweddar yn edrych ar hoff ddulliau gweithio unigolion yn y tîm. Bydd y sesiwn nesaf yn ystyried sgiliau trafod a dylanwadu.

Mae'r Llawlyfr Gweithwyr wedi'i ddrafftio bellach a bydd yn cael ei dreialu gyda Meleri Light, yr aelod newydd o staff.

3.3 Cyfathrebu a marchnata – Cafwyd diweddariad hynod ddefnyddiol gan Charlotte Thomas, Rheolwr Marchnata, am gyfarfod blaenorol yn amlinellu newidiadau i gyfraddau adfer a metrigau eraill. Roedd TE yn falch o nodi bod mwy a mwy o sylw a thagiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, tynnodd TE sylw at y ffaith bod sawl ymgeisydd ar gyfer Carfan 6 wedi sôn am yr Academi Arweinyddiaeth mewn gwaith blaenorol y buont yn rhan ohono.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb o'r grŵp rhanddeiliaid yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul. Cytunwyd i ymestyn tymor rhanddeiliaid o ddwy flynedd i dair yn unol ag aelodau'r Bwrdd. Fodd bynnag, byddai'r gwaith arfaethedig o adnewyddu aelodau ym mis Medi yn arwain at golli llawer o aelodau profiadol. Bydd angen ymdrin â hyn yn ofalus oherwydd efallai y byddwn am gynnwys y Rhanddeiliaid hyn yn yr adolygiad haen ganol ar ran yr Academi Arweinyddiaeth. Rhannodd TE amlinelliad o'r adolygiad Haen Ganol.

Hefyd, bydd angen ystyried sut i barhau i ennyn diddordeb rhanddeiliaid sy'n gadael yng ngwaith yr Academi Arweinyddiaeth.

Cadarnhaodd SD fod disgwyl i'r adolygiad haen ganol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd cynnwys cymaint ag sy'n bosibl o bobl o safbwynt eiriolaeth.

Cyfeiriodd TE at archwiliad diweddar o aelodau'r Senedd i weld faint o wybodaeth a dealltwriaeth sydd ganddynt o waith yr Academi Arweinyddiaeth. Cydnabuwyd nad yw'r rhan fwyaf fawr callach, a bod angen cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Tynnodd JG sylw at bwysigrwydd meithrin dealltwriaeth Aelodau'r Senedd ac awgrymodd ddigwyddiad a chylchlythyr i ddarparu gwybodaeth am waith yr Academi. Hefyd, soniodd YI pa mor ddefnyddiol fyddai arddangos ein gwaith yn y Senedd.

Roedd MJ wedi'i blesio'n fawr gyda'r holl waith a wnaed gan ymateb yn ffafriol i ddulliau gwahanol aelodau staff o weithio a ddylai helpu i feithrin maddeugarwch mewnol.

Diolchodd SD i TE am adroddiad cynhwysfawr llawn gwybodaeth yn tynnu sylw at yr holl faterion allweddol.

6. Cylch Gorchwyl

Adolygwyd y cylch gorchwyl presennol a chytunwyd i ychwanegu Rheoli Risg at gylch gwaith y bwrdd llawn.

Dywedodd TE fod iaith y cylch gorchwyl yn ymddangos braidd yn hen ffasiwn o gofio sut mae'r sefydliad wedi datblygu ac esblygu ers llunio'r cylch gorchwyl gwreiddiol.

Cafodd rhai gwelliannau eu hawgrymu a'u trafod ond cytunwyd wedyn i oedi cyn cwblhau'r gwaith tan ar ôl y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Medi pan fydd mwy o amser ar gael i drin a thrafod y mater.

7. Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd

Bydd Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd yn cael ei gynnal ym mis Medi. Bydd y diwrnod yn cynnwys:

- Ystyried Cylch Gorchwyl fel yr amlinellir uchod
- Cyfle i gwrdd ag aelodau newydd o'r staff
- Cyflwyniad ar ADY
- Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar adolygiad wedi'i deilwra.

8. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Dywedodd SD ei bod wedi cwblhau gwerthusiadau'r Bwrdd erbyn hyn a'i bod yn paratoi'r adroddiadau. Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw ac am y trafodaethau defnyddiol a gafwyd.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 29 Medi - cyfarfod wyneb yn wyneb yng Ngwesty'r Marriott, Abertawe fydd hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 y bore.

Log Gweithredu

Rhif.		Pwy	Terfyn amser	Statws
209	Nodi unrhyw beth perthnasol o'r adroddiad monitro gwleidyddol	MP	Parhaus	
221	Gofyn i Gymdeithion gopïo YI i mewn i waith cwricwlwm	TE	Parhaus	
224	Anfon cylch gorchwyl y Ffederasiwn at JG	TE	Gorffennaf 2023	
225	Ystyried Addysg Bellach Uwch fel sefydliad meincnodi posibl ar gyfer yr adolygiad wedi'i deilwra	TE	Gorffennaf 2023	Cwblhawyd
226	Postio amlinelliad o'r Adolygiad Haen Ganol yn Sgwrs/Chat	TE	Gorffennaf 2023	Cwblhawyd